# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nôs Iau, 25ain Mehefin 2015.**

**Presennol. Mri:-** Dafydd Evans, Paul Hughes, J.P.Jones, D. Lewis, S.G.Owen, W.N.Owen, G.Wigley, H.M.Williams, Mrs Gwen Lloyd, Mrs Ann Williams a Mrs Gwenfair Davies.

**Ymddiheuriadau.** Mri:- A. O. Griffiths, Siôn Ifans, D.G.Jones, H.D.Jones, a'r Cyng. G.P.Fychan. Cofnodwyd fod y Cyng. Gwilym Fychan yn yr ysbyty ym Mronglais yn aros am driniaeth, a bod llythyr i'w anfon iddo am wellhad llwyr a buan.

Croesawyd PCSO Tess Williams o Fachynlleth i egluro menter newydd oedd ganddi mewn golwg, sef bod gwirfoddolwyr yn rhoi isafswm o dair awr y mis i gofnodi cyflymder trafnidiaeth a goryrru drwy pentrefi'r ardal trwy ddefnyddio gwn arbennig i gofnodi rhif y car a'r cyflymder. Trosglwyddo'r wybodaeth i'r heddlu lleol a hwythau wedyn yn anfon rhybudd i'r troseddwyr.
Llugoer oedd ymateb cychwynnol y cynghorwyr i'r cynllun.

**16. Cofnodion cyfarfod 28ain Mai 2015.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**17. Materion yn codi o'r cofnodion.**
94. Mae toiledau Cemaes wedi cau ac mae'r Cyngor Sir yn trafod efo perchnogion y Penrhos.
101.1 Dim trefniant wedi ei wneud ynglyn âg ymweliad swyddogion y cwmni sy'n cynyrchu'r peiriant *defibrilator.*
101.4 Darllenwyd ymateb Mr Chris Lloyd ynglyn â ffordd y Waun, Cemaes. Nid oedd ei atebiad yn gwbl foddhaol ond gadawyd i weld pa ddatblygiad fydd yn deilliaw.
Cyfarfod Blynyddol.
1.3 Mae hysbyseb wedi ymddangos ym Mlewyn Glas mis Mehefin. Dim ymateb hyd yn hyn.
3.1 Darllenwyd e-bost Gwen Lloyd yn datgan na fedrai gynrychioli'r Cyngor ar Ecodyfi o achos pwysau gwaith. Derbyniwyd ei heglurhad ac ni enwebwyd arall i gynrychioli'r Cyngor.
6. Ann yn cywiro'r clerc fod cost ail ddosbarth yn 54c ac nid 53c.
Marerion eraill.
15.1 Gwilym Fychan a'r teulu'n diolch am y llythyr.
15.4 Trefnwyd fod Bill Owen a Dafydd Evans yn cyfarfod efo Emlyn Jones ynglyn â'r materion sy'n angen sylw yn ardal Llanwrin.
15.6 Mae'r heddlu'n cadw golwg ar y sefyllfa parcio ger Fronheulog.

**18. Cynllunio.**
Dim cais yn ystod y mis

**19. Eitemau i'w talu.**
19.1 Yswiriant blwyddyn o gwmni Zurich £677.49.
19.2 Cyflog (£750) a chostau (£46.92) tri mis y clerc. £796.92.

**20. Cais am arian.**
Dim cais yn ystod y mis.

**21. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
21.1 Mae athro arall wedi ei benodi ar staff Ysgol Glantwymyn.

**22. Gohebiaeth.**
22.1 Llythyr o'r Swyddfa Bost yn datgan ei bod wedi methu llenwi'r swydd yng Nghwmlline.
22.2 Ffordd Llanwrin ar gau hyd dydd Sul tra mae'r Cyngor Sir yn ail osod draen. Eglurwyd fod y gwaith wedi ei gwblhau.
22.3 Manylion Cynllun Datblygu Lleol Powys 2011-2026 i'w weld ar wefan y Cyngor ar www.powys.gov.uk (cliciwch ar Ymgynghoriadau) (Consultations). Er bod llythyr wedi ei anfon i nodi safbwynt y Cyngor yn y gorffennol, fe all bod angen gwneud ymholiadau pellach.
22.4 Gan fod yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Faldwyn ym mis Awst, mae'r eisteddfod yn cyflwyno cystadleuaeth i gymunedau addurno eu pentrefi fel arwydd o groeso. Nid oedd yr aelodau am ymuno yn y gystadleuaeth.

**23. Unrhyw fater arall.**
23.1 Rhestrwyd rhai materion pellach fydd angen cyflwyno i Emlyn Jones pan yn ymweld efo ardal Llanwrin/Ceinws. *(Eitem 17.15.4 uchod)*
23.2 Tynnwyd sylw'r cynghorwyr fod casgliadau o rai blychau postio wedi newid, a hynny heb lawer o rybudd. Llythyr i'r Swyddfa'r Post ym Machynlleth i ddatgan pryder ynglyn â'r sefyllfa.
23.3 Draen wedi blocio ger Rhydygwiail Isaf.

Nid oedd mater arall.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 30ain Gorffennaf 2015.**

Glantwymyn Community Council

PCSO Tess Williams from Machynlleth was welcomed to the June meeting to present a new initiative which is being promoted locally. The aim is to recruit volunteers from different villages to try to reduce excessive speeding and improve safety in the villages. The volunteers will be presented with an instrument which will record the registration number and speed of vehicles, and the information forwarded to the Police. Anyone who is interested in participating may receive more information from the Police in Machynlleth.
Because the Public Toilets in the village of Cemaes had been neglected over the years and not up to the standard required, the Community Council rejected the offer from Powys County Council to adopt them and they have closed. However the proprietors of the Penrhos Arms Hotel nearby have kindly offered the hotel toilet facilities to the public. Signs will be erected informing the public of the new arrangements.
A representative from Powys County Council will meet a deputation from the Community Council to discuss problems that have arisen in the Llanwrin area. Hope fully some outstanding issues will be resolved soon.
The insurance premium of £677.49 for 2015/2016 was paid to Zurich Insurance.